NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Profion genoteip CYP2C19 i arwain y defnydd o clopidogrel ar ôl strôc isgemig neu bwl o isgemia dros dro

31 Gorffennaf 2024

14 Mai 2025

Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio profion genoteip CYP2C19 i asesu a yw clopidogrel yn gyffur gwrthblatennau addas i bobl sydd wedi cael strôc isgemig neu bwl o isgemia dros dro (TIA).

Dylid defnyddio prawf seiliedig ar labordy ar gyfer profion genoteip CYP2C19.

Pan na fydd prawf seiliedig ar labordy ar gael, dylid defnyddio pecyn prawf pwynt gofal Genedrive CYP2C19 ID.

Pan na fydd prawf seiliedig ar labordy a phecyn prawf pwynt gofal Genedrive CYP2C19 ID ar gael, dylid defnyddio prawf pwynt gofal Genomadix Cube.

Cyffur gwrthblatennau yw clopidogrel a ddefnyddir ar ôl strôc isgemig neu TIA (a elwir yn 'fini strôc' weithiau) i leihau'r risg o glotiau gwaed a all achosi rhagor o strociau neu drawiadau ar y galon. Ond nid yw clopidogrel yn gweithio cystal mewn rhai pobl os oes ganddynt amrywiadau mewn genyn a elwir yn CYP2C19 (sy'n cael ei adnabod fel 'amrywolion colli gweithrediad'). Gall profion genoteip CYP2C19 nodi'r bobl hyn er mwyn iddynt gael cynnig cyffur gwrthblatennau arall i ostwng eu risg o glotiau gwaed. Gellir cynnal profion mewn labordy neu yn y pwynt gofal (er enghraifft, ar ward strôc).

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

NICE National Institute for Health and Care Excellence

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda mae'n gweithio o gymharu â phrofion eraill?
- Beth yw'r risgiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth yw'r obligiadau posibl o canlyniadau fy mhrawf?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gymryd y prawf?
- Faint fydd y prawf yn ei gymryd?
- A fydd angen, neu a fyddaf yn cael cynnig tawelydd neu anesthesia? Os byddaf, a fyddaf yn cael dewis?
- A fyddaf yn gallu gyrru i'r apwyntiad ac yn ôl?
- Sut y byddaf yn cael canlyniadau'r prawf? A fydd apwyntiad dilynol?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG ar strôc fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y Gymdeithas Strôc, 0300 3300 740, roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2025**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-7433-7